**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fercher, Ionawr 27ain 2016 am 7.30 yh yng Nghanolfan Pandy Tudur

Ymddiheuriadau: Tecwyn Evans, Ian W Griffith

Presennol: D Gwynfor Davies (Cadeirydd), Diane M Roberts, Ann O Vaughan, Gerwyn Davies, Gwyn Williams, R Emlyn Williams, Elen H Edwards, Gwydion A Jones, Cyng D O Roberts a'r Clerc.

49.1 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda.
Cyrhaeddodd Gwydion Jones y cyfarfod.

49.2 PRIF WEITHREDWR CYNGOR AR BOPETH
Croesawyd Mrs Bethan Millington, Prif Weithredwr CAB i'r cyfarfod i sôn am waith y sefydliad yn y sir sy'n cynnig cyngor cyfrinachol rhad ac am ddim. Mae 10 o gyfarwyddwyr i'r sefydliad (a'r Cynghorydd Emlyn Williams yn un ohonynt), 42 o wirfoddolwyr ac 20 o staff cyflogedig llawn amser a rhan amser. Maent yn darparu gwasanaeth cymunedol gwledig yn Llanrwst, Cerrigydrudion, Llansannan a Dolwyddelan ac yn trefnu ymweliadau cartref. Mae angen mwy o wirfoddolwyr i weithio gyda hwy. Tynnwyd sylw o'r llawr bod arian RDP wedi ei roi i hyfforddi gwirfoddolwyr ond oherwydd toriadau i'r gwasanaeth gwledig aeth y gwirfoddolwyr i weithio i'r glannau.
Diolchwyd yn gynnes i Mrs Millington am ddod i'r cyfarfod ac i'w gŵr am ddod gyda hi.

49.3 CAIS CYNLLUNIO Rhif 0/42381 Estyniad un llawr bwriedig ac addasiadau i siop y pentref a'r swyddfa bost bresennol, gan gynnwys ardal / bocs storio tanwydd i'w werthu yn Meirion Stores & Swyddfa'r Post, Llangernyw gan Mr & Mrs Dylan Baines – cafwyd copi o hysbyseb a ymddangosodd yn y papur ynglŷn â pherchnogaeth rhan o dir y datblygiad. PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais a'r teimlad oedd ein bod yn falch o weld busnes gwledig yn ffynnu a datblygu.

49.4 SEFYDLU PWYLLGOR TOILEDAU – PENDERFYNWYD i gynnal cyfarfod cyhoeddus i drafod ail agor y Toiledau nos Fercher Chwefror 24ain am 7 o'r gloch cyn cyfarfod o'r Cyngor. Byddai angen rhai aelodau i fod ar y bwrdd rheoli ac eraill i helpu cynnal y toiledau. Angen holi grwpiau Llansannan a Llandrillo ynglŷn a ffurfio grŵp ac angen cael cyfieithydd yn y cyfarfod, hysbysebu yn Y Gadlas ac ar Radio Cymru. Wedi ffurfio grŵp byddai hwnnw wedyn yn cymryd gofal o'r adeilad a ffurfio cyfansoddiad ac edrych ar y lês a.y.b.
Tynnwyd ein sylw hefyd bod angen arwyddion newydd yn Llangernyw yn dangos y siop, yr ywen, yr Amgueddfa a'r toiledau arnynt. PENDERFYNWYD i holi am hyn.

49.5 DIFIBRULLATOR – trafodwyd safle'r diffibriliwr eto a gwelwyd bod angen iddo gael ei osod mewn man hwylus fyddai ar gael 24 awr y dydd a heb amharu ar yr ysgol.

49.6 PANEL PANDY TUDUR – cafodd y Cadeirydd, Gwyn Williams a'r Clerc gyfarfod safle â Suryiah Evans ddydd Gwener Ionawr 22ain. Y penderfyniad oedd i ofyn i Fenter Pandy Tudur a fyddai unrhyw wrthwynebiad i osod y panel gwybodaeth ger y fainc yn y maes parcio.

49.7 MATERION LLEOL
49.7.1 Gwaith gwael wedi ei wneud ar glawr y 'manhole' yn Glan Collen.
49.7.2 Crac yn y ffordd mewn i Glan Collen.
49.7.3 Angen gofyn i'r Awdurdod Tân os ydynt yn ymwybodol lle mae hydrant tân yn yr ardal a'u bod yn cael eu marcio.
49.7.4 Yn dilyn tân mewn tŷ ym Mharc Aelas penderfynwyd gofyn i Grŵp Cynefin a fedrant ein hargyhoeddi nad oes gwendid o fewn adeiladwaith y tai sy'n creu mwy o risg i drigolion Parc Aelas.
49.7.5 Twll yn y ffordd ochr isaf i Lead Inn.
49.7.6 Arwydd Pandy Tudur yng Nglan Rhyd angen ei lanhau a'i beintio.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.20 yh.

*Cymeradwywyd y Cofnodion ...D G Davies……………… ... Dyddiad ……24/2/16…………*

Community Council Meeting was held Wednesday, January 27th 2016 at 7.30 pm at the Pandy Tudur Community Centre

Apologies: Tecwyn Evans, Ian W Griffith

Present: D Gwynfor Davies (Chair), Diane M Roberts, Ann O Vaughan, Gerwyn Davies, Gwyn Williams, R Emlyn Williams, Elen H. Edwards, Gwydion Jones, Cllr D O Roberts & Clerk.

49.1 DECLARATION - members were given the opportunity to declare a connection with an item on the agenda.
Gwydion Jones arrived at the meeting.

49.2 CHIEF EXECUTIVE OF CITIZENS ADVICE BUREAU
Mrs Bethan Millington, CEO of the CAB was welcomed to the meeting to talk about the organization's work in the county which offers free and confidential advice. There are 10 directors of the institution (and Councillor Emlyn Williams is one of them), 42 volunteers and 20 paid staff full time and part time. They provide community service in rural Llanrwst, Cerrigydrudion, Llansannan and Dolwyddelan and organize home visits. There is need for more volunteers to work with them. Attention was drawn from the floor that RDP funding had been given to training volunteers but because of cuts to the rural service the volunteers went to work down coast.
Mrs Millington was warmly thanked for attending the meeting and for her husband accompanying her.

49.3 PLANNING APPLICATION No. 0/42381 Proposed single storey extension and alterations to the village shop and post office, including area / fuel storage box for selling in Meirion Stores & Post Office, Llangernyw by Mr & Mrs Dylan Baines - there was a copy of an advertisement which appeared in the paper about the ownership of part of the land development. RESOLVED unanimously to support the application and the feeling was that we were pleased to see a rural business flourish and develop.

49.4 ESTABLISHMENT OF TOILETS COMMITTEE - RESOLVED to hold a public meeting to discuss reopening the toilets on Wednesday 24th February at 7pm before a meeting of the Council. Some members would need to be on the board of management and others to help maintain the toilets. Llansannan and Llandrillo groups need to be contacted to ask about forming a group and an interpreter was requested for the meeting, to be advertised in The Gadlas and on the radio. Having formed a group that would then take care of the building and form a constitution and look at the lease etc.
Our attention was drawn also to the need for new signs for Llangernyw showing the shop, the yew, the Museum and the toilets on them. RESOLVED to ask about this.

49.5 DIFIBRULLATOR - defibrillator was discussed again and found that it needs to be installed in a convenient place which would be available 24 hours a day and without disrupting the school.

49.6 PANDY TUDUR PANEL - the Chairman, Gwyn Williams and the Clerk had a site meeting with Suryiah Evans on Friday 22nd January. The decision was to ask Menter Pandy Tudur if there was an objection to placing the information panel near the bench in the parking area.

49.7 LOCAL ISSUES
49.7.1 Poor work has been done on the manhole cover in Glan Collen.
49.7.2 Crack in the road to Glan Collen.
49.7.3 Need to ask the Fire Authority if they are aware where the fire hydrantsa in the area are situated and are they marked.
49.7.4 Following a house fire at Parc Aelas it was decided to ask Grŵp Cynefin if they can convince us that there is no weakness in the housing construction that creates a greater risk to the residents of Parc Aelas.
49.7.5 Pothole in the road near Lead Inn.
49.7.6 Pandy Tudur signpost in Glan Rhyd needs to be cleaned and painted.

The meeting came to a close at 9.20 pm.

Minutes were approved ..DG Davies............................ Date ....24/2/16...........................